


Eich canllaw ar gydsyniad a rhoi organau

Rôl yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yng Nghymru

O 1 Rhagfyr 2015, bydd system newydd ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru fel rhan o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013. Rôl yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yw sicrhau bod clinigwyr yng Nghymru yn cydymffurfio â'r gyfraith. Rydym yn gwneud hyn drwy gyhoeddi Cod Ymarfer sy'n rhoi cyngor i glinigwyr ar wneud yn siwr y ceir cydsyniad dilys cyn i organau gael eu rhoi.



Newid y ffordd rydych yn dod yn rhoddwr organau yng Nghymru

Gall rhoi'ch organau ar ôl i chi farw helpu'r rheini sydd angen trawsblaniad. Mae'r system newydd hon yn creu math newydd o gydsyniad cyfreithiol yng Nghymru o'r enw cydsyniad tybiedig. Mae hyn yn golygu oni bai i chi gofrestru neu ddatgan penderfyniad i beidio â rhoi'ch organau ar ôl eich marwolaeth, ystyrir nad oes gennych unrhyw wrthwynebiad i'w rhoi. Tybir eich bod wedi rhoi'ch cydsyniad oni bai'ch bod yn syrthio i un o'r categorïau a eithrir neu os gall eich teulu a'ch ffrindiau ddangos nad oeddech am fod yn rhoddwr organau.

Gallwch gofrestru'ch penderfyniad i roi organau drwy ddefnyddio **Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG** neu drwy ddweud wrth eich teulu neu'ch ffrindiau. Os nad ydych am roi organau nac yn cofrestru'ch gwrthwynebiad, bydd eich perthnasau'n cael y cyfle i ddangos tystiolaeth nad oeddech am eu rhoi. Gallwch hefyd benodi cynrychiolydd i wneud eich penderfyniad ar eich rhan.

Os ydych wedi cofrestru'ch penderfyniad i roi organau, nid oes gan eich teulu'r hawl gyfreithiol i benderfynu'n groes i'ch cydsyniad; fodd bynnag, bydd teuluoedd yn dal i gael eu cynnwys mewn trafodaethau ynglyn â rhoi'ch organau. Am wybodaeth bellach cyfeiriwch at **Rhoi Organau Cymru**.



Cofrestru'ch penderfyniad i roi organau

Mae **Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG** yn gweithredu ledled y DU ac yn gadael i chi gofnodi'ch penderfyniad yngl n â rhoi'ch organau. Mae Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG yn gadael i chi ddweud a ydych am roi'ch holl organau, rhai o'ch organau neu ddim un o'ch organau. Mae hefyd yn gadael i chi benodi cynrychiolydd i wneud y penderfyniad hwn ar eich rhan.

Beth mae eich penderfyniad yn ei olygu

Os ydych wedi datgan neu gofnodi penderfyniad i roi organau, bydd eich cydsyniad yn ddilys yn gyfreithiol. Os yw rhoi'n bosibilrwydd pan fyddwch yn marw, bydd nyrs sy'n arbenigo mewn rhoi organau'n helpu i anrhydeddu'ch penderfyniad. Bydd yn cefnogi'ch teulu gan roi gwybod iddynt am eich penderfyniad

Os ydych wedi datgan penderfyniad i beidio â rhoi organau, bydd eich penderfyniad yn cael ei barchu. Ni fyddwch yn dod yn rhoddwr organau gan nad ydych wedi rhoi cydsyniad ac ni all eich cydsyniad gael ei dybio chwaith.

Os nad ydych wedi datgan penderfyniad ac os ydych wedi byw a marw yng Nghymru, gall eich cydsyniad gael ei dybio. Mae hyn yn golygu y gallwch ddod yn rhoddwr organau. Os gall eich teulu ddangos eich bod yn gwrthwynebu rhoi organau ond eich bod heb gofnodi hyn ar **Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG**, ni all eich cydsyniad gael ei dybio. Os nad yw'ch teulu'n ymwybodol o'ch penderfyniad, bydd eich cydsyniad yn cael ei dybio.

Yn greiddiol i'r gyfraith mae'r egwyddor bod y penderfyniad i ddefnyddio'ch organau at drawsblannu'n aros yn gyntaf ac yn bennaf gyda chi. Y ffordd hawsaf o ddatgan eich penderfyniad yw drwy Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG; fodd bynnag, yr un mor bwysig yw ei drafod â'ch teulu.

Bydd eich cydsyniad yn ddilys yn gyfreithiol ar yr amod na chawsoch eich gorfodi gan neb i wneud y penderfyniad, eich bod yn ymwybodol o'ch gweithredoedd a bod yr wybodaeth angenrheidiol gennych.

Siarad â'ch teulu am eich penderfyniad

Digwyddiad prin iawn yw rhoi organau gan nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn marw o dan amgylchiadau lle mae rhoi organau'n bosibl. Mae teuluoedd bob amser yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am roi organau ac felly y bydd hi o hyd o dan y gyfraith newydd yng Nghymru. Bydd siarad â'ch teulu'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o'ch penderfyniad cyn y bydd staff yr ysbyty'n dod atynt.

Gofynnir i'ch teulu am wybodaeth a fydd yn helpu i gael gwybod a yw'ch organau'n addas i'w trawsblannu. Yn ddi-os, amser anodd fydd hwn i'ch teulu. Bydd rhannu'ch penderfyniad â nhw'n eu helpu i ymbaratoi ar gyfer y trafodaethau hyn.

Yn aml, gall rhoi organau ddod â chysur i deuluoedd sydd wedi colli un o'u hanwyliaid, drwy'r wybodaeth y gall bywydau eraill fod wedi'u hachub. Da chi, trafodwch eich penderfyniad â'ch teulu.

